Stephen St Pier
Finance and Networks Division
Ofwat
Centre City Tower
7 Hill Street
Birmingham
B5 4UA

Annwyl Syr/Madam

**Ymgynghoriad OFWAT: Gosod rheolaethau ar brisiau ar gyfer 2015-20.**
**Disgwyliadau Cynlluniau Busnes**
**'Ymgynghoriad'.**

Hoffwn ddiolch am y cyfle i roi sylwadau ar yr ymgynghoriad diweddaraf ynglŷn â'r dull o weithredu'r broses adolygiadau cyfnodol. Bu aelodau o'm tîm, Alun Attwood a Mark Squire, yn cyfarfod â Rob Powell o Ofwat a swyddogion Llywodraeth Cymru yn ddiweddar i drafod y cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Roedd yn gyfarfod defnyddiol a gobeithiaf y bydd modd i ni adeiladu ar y ffordd hon o weithio dros y misoedd nesaf. Mae Cadeirydd a Phrif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn awyddus i ddatblygu perthynas gydag Ofwat er mwyn sicrhau bod y ddau fudiad yn cyflawni'r canlyniadau a rennir a nodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae CNC yn croesawu'r bwriad i symleiddio'r broses o gynnal adolygiadau cyfnodol. Mae CNC o'r farn ei bod yn hollbwysig bod Bwrdd pob cwmni dŵr yn berchen ar eu cynllun busnes. Bydd y pwyslais hwn yn helpu i sicrhau bod cynlluniau'n adlewyrchu blaenoriaethau ardaloedd daearyddol penodol ac yn mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau eu cwsmeriaid. Mae CNC yn gobeithio y bydd y dull a gynigir yn sicrhau bod cynlluniau busnes y cwmnïau dŵr perthnasol yng Nghymru yn gallu mynd i'r afael â materion a blaenoriaethau penodol Cymru.

Mae'r ddogfen ymgynghori yn rhoi manylion ar rôl y grwpiau annibynnol newydd sy'n herio ar ran cwsmeriaid (CCG). Ar hyn o bryd, ymddengys bod disgwyl i'r grwpiau hyn adrodd ar bryderon defnyddwyr a phryderon amgylcheddol. Mae rheoleiddwyr amgylcheddol, yn cynnwys CNC, yn cyfrannu pan fo CCG yn asesu cynllun busnes cwmni dŵr. Mae'r ymgynghoriad yn nodi y bydd adroddiad CCG yn hollbwysig wrth benderfynu a ddylid asesu cynllun busnes cwmni dŵr fel cynllun 'rhagorol', 'safonol' neu un sydd angen ei 'ailgyflwyno'. Mae CNC yn cydnabod y gallai rôl y grwpiau hyn fod yn un bwysig. Mae ein profiad ni gyda grwpiau Dŵr Cymru a Dyffryn Dyfrdwy yn tanlinellu diffyg dealltwriaeth y cwmni dŵr ac aelodau CCG o'u rôl, cylch gwaith a statws. Mae CNC o'r farn bod angen mwy o waith i wneud hyn yn gliriach er mwyn sicrhau bod modd i'r CCG gyflawni eu cylch gwaith yn y broses reoleiddio.

Yn unol â'r pryderon hyn, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol cynnwys asesiad CNC

o gynlluniau cwmnïau dŵr mewn adroddiad CCG. Mae gan CNC ddyletswyddau a chyfrifoldebau statudol penodol sy'n berthnasol i'r Rhaglen Amgylcheddol Genedlaethol, Rheoli Perygl Llifogydd a Diogelwch Cyflenwad Dŵr y Cyhoedd. Mae'n bwysig bod CNC yn darparu cyngor annibynnol i Ofwat ar yr elfennau hyn o fewn y cynllun er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau. Mae posibilrwydd y byddai darparu'r cyngor hwn trwy'r CCG yn unig yn gwanhau'r cyngor ac yn achosi rhagfarn ddiangen. Yn ein barn ni, dylid cael rôl ar wahân i reoleiddwyr amgylcheddol weithio gydag Ofwat er mwyn asesu i ba raddau y mae cynlluniau busnes cwmnïau'n cydymffurfio â rhwymedigaethau amgylcheddol ac yn darparu cyflenwad diogel o ddŵr. Rydym ni'n cael trafferth gweld sut y gall CCG weithredu fel y prif fforwm ar gyfer ymgysylltu â rheoleiddwyr amgylcheddol. Mae'r fforwm PR14 yn bodoli yng Nghymru er mwyn lleisio barn ond nid oes perthynas uniongyrchol rhyngddo a rôl CCG.

Byddai CNC yn disgwyl i gynllun busnes rhagorol gan gwmni dŵr ddangos ymrwymiad i wella perfformiad amgylcheddol, cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau statudol a dull arloesol o fynd i'r afael â materion yn nalgylch y cwmni. Byddai gwneud hyn ochr yn ochr â'r rhwymedigaeth i ddarparu cyflenwad diogel a darparu gwerth gorau i gwsmeriaid ac i'r amgylchedd yng Nghymru trwy'r broses cynllunio rheoli Adnodd Dŵr yn arwydd bod cwmni'n perfformio'n rhagorol yn amgylcheddol.

Mae CNC yn croesawu'r arwydd clir i gwmnïau dŵr bod yn rhaid iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau amgylcheddol statudol. Fodd bynnag, nid yw'r neges mor glir mewn perthynas â chanlyniadau hirdymor sy'n ymwneud â newid hinsawdd, rheoli perygl llifogydd ac effeithlonrwydd dŵr. Mae perygl y bydd cyfleoedd i ddatblygu atebion arloesol mewn dalgylch – atebion sy'n ceisio sicrhau manteision lluosog gyda phartneriaid yn unol â'r dull rheoli ar lefel ecosystem - yn cael eu colli. Byddai'r cyfleoedd hyn yn fodd o sicrhau nifer o fanteision ar y cyd â phartneriaid yn unol â'r dull gweithredu ecosystem.

O ystyried diffyg cysondeb yr amserlen ar gyfer ail gylch cynlluniau rheoli basn afon a PR14, mae CNC o'r farn y dylid cynnig mwy o eglurdeb i gwmnïau mewn perthynas â darparu ar gyfer canlyniadau ail gylch y Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn eu cynllun busnes terfynol. Credwn y dylid disgwyl i'r cwmnïau dŵr gynnwys dyraniad priodol yn eu cynlluniau busnes i gwrdd â'r gofynion hyn.

Yn ein cyfarfod diweddar yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, trafodwyd pwysigrwydd sicrhau bod mecanweithiau ariannu ar waith i ganiatáu i gwmnïau dŵr adennill unrhyw gostau'n ymwneud â rhwymedigaethau amgylcheddol statudol newydd neu newid mewn safonau trwyddedu yn ystod y cyfnod. Mae'r "Protocol ar gyfer Newid" yn bodloni'r gofyniad hwn ar hyn o bryd ac rydym ni o blaid parhau i'w ddefnyddio.

Os hoffech fwy o wybodaeth am unrhyw un o'r pwyntiau a godwyd, cysylltwch â Mark Squire ar 02920 466135 neu mark.squire@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk .

Yn gywir

Ceri Davies
Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio

Ffôn/Tel: 02920 466135
Ffacs/Fax: 02920 466413
Ebost/Email mark.squire@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg